



Rôl awdurdodau lleol wrth gefnogi rhyddhau o'r ysbyty a mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal

Tystiolaeth Llais i ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru ar rôl awdurdodau lleol wrth gefnogi rhyddhau o'r ysbyty a mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal

Ynglŷn â Llais

Llais yw'r corff annibynnol sy'n adlewyrchu'r safbwyntiau ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru yn eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a'u gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rydym yn gweithio gyda phobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru fel y gellir clywed llais pawb, a'i ddefnyddio, i ysgogi cynllunio, dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb. Rydym yn:

-  Estyn allan i glywed gan bobl yn ein cymunedau lleol drwy raglen barhaus o weithgareddau ymgysylltu. Rydym yn gwneud hyn fel bod pobl yn gwybod am yr hyn rydym yn ei wneud ac yn deall yr hyn a wnawn, ac i gasglu eu barn a'u profiadau o wasanaethau GIG a gofal cymdeithasol. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol, gan gynnwys ymweld â lleoedd lle mae pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
-  Defnyddio'r hyn a glywn i helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall yn well sut mae'r rhai ohonom a allai fod eu hangen, ac sy'n defnyddio gwasanaethau yn meddwl bod gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion, yn y ffordd sydd bwysicaf iddynt. Rydym yn helpu i sicrhau bod y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gweithredu i wella pethau lle mae angen hynny.

Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag arweinwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan fyddant yn ystyried gwneud

newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, fel bod pobl a chymunedau yn cael dweud eu dweud o'r cychwyn cyntaf.

- 🗣️ Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i fynegi eu pryderon am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Rydym wedi gweithredu yng Nghymru ers 1 Ebrill 2023. Mae ein hymateb yn adlewyrchu'r hyn yr ydym wedi'i glywed yn uniongyrchol a thrwy eraill, yn enwedig gan bobl:

- sydd wedi mynegi pryderon drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, a
- sydd wedi cael profiadau diweddar o brosesau rhyddhau o ysbytai o bob ardal o Gymru.

Cefndir

Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig wrth helpu pobl i adael yr ysbyty. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys cydlynu â gwasanaethau iechyd, asesu anghenion gofal, a threfnu'r cymorth cywir i sicrhau bod pobl yn symud yn amserol ac yn ddiogel o'r ysbyty i'r cartref neu leoliadau gofal eraill.

Yn adroddiad 2022 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar *ryddhau cleifion a'i effaith ar lif cleifion drwy ysbytai*¹ amlygwyd nifer o heriau allweddol, gydag aros am asesiadau gofal cymdeithasol yn cael eu rhoi fel un o'r prif resymau dros oedi wrth gael pobl adref.

Nod y *model Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA)*² yw blaenoriaethu rhyddhau cynnar ac adfer yn y cartref cyn gwneud penderfyniadau gofal hirdymor. Mae pa mor dda y mae hyn yn gweithio yn amrywio yn ôl rhanbarth. Mae gan rai ardaloedd lwybrau D2RA sydd wedi'u datblygu'n dda gyda gwasanaethau cymunedol cryf a byrddau iechyd a systemau

¹ [Rhyddhau o ysbytai a'i effaith ar lif cleifion drwy ysbytai, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru, Mehefin 2022](#)

² [GIGS.wales/sa/six-goals-for-brycs-care/goal-6/goal-6-resources/discharge-to-recover-then-assess-report-pdf/](https://gigs.wales/sa/six-goals-for-brycs-care/goal-6/goal-6-resources/discharge-to-recover-then-assess-report-pdf/)

awdurdodau lleol yn gweithio'n well gyda'i gilydd. Mae eraill yn cael trafferth oherwydd staff cyfyngedig a chyllid, gan arwain at arosiadau hirach yn yr ysbyty i bobl sydd fel arall yn ddigon da i fynd adref.

Mae hyn yn golygu, yn dibynnu ar ble mae rhywun yn byw, y gallant gael y gofal sydd ei angen arnynt yn gyflym neu wynebu oedi hir cyn y gallant adael yr ysbyty.

Mae Canllawiau Rhyddhau o Ysbyty *GIG Cymru yn*³ ei gwneud yn glir bod cydweithio agos rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn allweddol i ddarparu Safonau Gofynnol Rhyddhau o Ysbytai, ond mae pobl yn dweud wrthym nad yw hyn yn digwydd yn aml.

Lansiwyd *Her Gaeaf Gofal Integredig 50 Diwrnod GIG Cymru*⁴ ym mis Tachwedd y llynedd, gyda'r nod o gyflymu rhyddhau o ysbyty a gwella gofal cymunedol i leddfu pwysau'r gaeaf ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y fenter hon yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd ar gynllun gweithredu 10 pwynt a ddyluniwyd i leihau'r oedi wrth gael pobl adref gyda'r cymorth cymunedol cywir.

Dangosodd pa mor bwysig yw rôl awdurdodau lleol wrth helpu pobl i adael yr ysbyty yn esmwyth a heb oedi drwy weithio gyda'r gwasanaethau iechyd, gwirio pa gymorth sydd ei angen arnynt, a sicrhau bod gofal ar waith gartref neu yn y gymuned.

Mae pobl wedi dweud wrthym fod y fenter wedi gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd fel Gorllewin Cymru. Mae pobl wedi cael cymorth gan ymweliadau cartref gan nyrsys i'w cadw allan o'r ysbyty, ac mae agor uned mân anafiadau dan arweiniad ymarferydd nyrsio ar gyfer apwyntiadau cerdded i mewn ar benwythnosau i leddfu'r pwysau ar unedau damweiniau ac achosion brys.

Fodd bynnag, rydym hefyd wedi clywed, mewn o leiaf un rhanbarth, ei bod wedi bod yn heriol defnyddio'r cyllid her 50 diwrnod oherwydd anawsterau wrth fodloni meini prawf y gronfa.

³ [Canllawiau Rhyddhau o Ysbytai, GIG Cymru, Rhagfyr 2023](#)

⁴ [Her Gaeaf Gofal Integredig 50 Diwrnod GIG Cymru, 11 Tachwedd 2024](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod canlyniadau'r fenter wedi bod yn addawol, gyda llai o oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty yn ystod mis Tachwedd 2024 a'u bod yn disgwyl gweld hyn yn parhau.

Rydym yn gwybod po hiraf y bydd person hŷn neu rywun mewn sefyllfa fwy bregus yn aros yn yr ysbyty, yr uchaf yw eu risg o haint a cholli annibyniaeth gartref.

Mae oedi wrth symud pobl o'r ysbyty pan fyddant yn barod i adael nid yn unig yn effeithio'n andwyol ar yr unigolyn sy'n aros yno ond hefyd yn effeithio ar allu'r GIG ehangach i ymateb i'r galw. Rydym wedi gweld yr heriau mewn adrannau brys, er enghraifft, lle mae cleifion yn aros am gyfnodau hir mewn ystafelloedd aros neu ar droliâu nes bod gwely ysbyty ar gael.

Gallu gofal cymdeithasol a phrinder gweithlu

Er bod Cynllun Cyflawni'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024-27⁵ wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phrinder gweithlu, gyda chamau gweithredu i wella cael a chadw staff gofal cymdeithasol, mae llawer o bobl yr ydym wedi siarad â nhw yn teimlo nad yw newid yn digwydd yn ddigon cyflym.

Mae pobl naill ai'n aros yn yr ysbyty yn hirach nag sydd angen, neu mae aelodau'r teulu a gofalwyr di-dâl yn gorfod llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth gofal oherwydd diffyg capasiti mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae llawer wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo dan bwysau i wneud hynny, neu fel pe na bai ganddynt unrhyw ddewis, a bod hyn yn effeithio ar eu hiechyd corfforol neu feddyliol eu hunain.

Mae llawer o'r pryderon rydyn ni'n eu clywed gan bobl a'u teuluoedd yn dweud wrthym am y gofid a'r rhwystredigaeth a achoswyd gan ddiffyg cefnogaeth, a'r teimladau o gael eu "*gadael i fwrw ati*".

⁵ <https://socialcare.wales/about-us/workforce-strategy/social-care-delivery-plan-2024-to-2027>

Aros am asesiadau gofal

Mae pobl wedi dweud wrthym fod oedi mewn asesiadau gofal wedi eu cadw nhw neu eu hanwyliaid yn yr ysbyty yn hirach nag y dylen nhw fod wedi bod.

Roedd rhai sydd wedi mynegi pryderon yn teimlo, pan gawson nhw eu hasesu, nad oedd yr asesiadau gofal yn ystyried holl anghenion yr unigolyn yn llawn cyn gadael yr ysbyty, gan wneud y symud o'r ysbyty i'r cartref yn anoddach.

Gall problemau godi hefyd pan gynhelir asesiadau mewn iaith nad yw'n iaith gyntaf y person neu os oes gan yr unigolyn anghenion cyfathrebu ychwanegol.

Er bod niferoedd swyddogol am oedi oherwydd asesiad mewn dewis iaith yn isel iawn, mae'r hyn yr ydym wedi'i glywed gan bobl yn awgrymu y gallai rhai pobl fod yn derbyn beth bynnag sydd ar gael i geisio gwneud asesiad yn gyflymach.

Gall gwneud eu hamgylchiadau yn hysbys a chael eu deall fel rhan o asesiad fod yn llawer anoddach os nad yw pobl yn gallu mynegi eu hunain yn eu dewis iaith. Gall hyn fod yn arbennig o anodd i bobl sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol, e.e. pobl â dementia.

Mae llawer o deuluoedd, sy'n poeni am gymhlethdodau o ganlyniad i arosiadau hir yn yr ysbyty, wedi mynd ag aelodau eu teulu adref yn hytrach nag aros. Mae hyn wedi arwain at orfod dechrau'r broses eto. Mae pobl wedi dweud wrthym am gael eu gadael "mewn limbo" ers misoedd.

Heriau wrth drefnu lleoliadau cartrefi gofal neu becynnau gofal cartref

Mae pobl wedi dweud wrthym fod cael lleoliadau cartrefi gofal neu becynnau gofal cartref yn her fawr, nid yn unig i'r rhai sy'n gadael yr ysbyty ond i lawer o bobl sydd angen gofal ledled Cymru. Rydym yn clywed bod hyn yn arbennig o wir ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Mae problemau pellach yn codi os yw'r lleoliadau a ganfyddir yn bell o ble mae pobl neu eu teuluoedd yn byw, neu os nad oes staff ar gael sy'n gallu cefnogi pobl yn eu dewis iaith. Gall hyn arwain at bobl yn teimlo'n ynysig ac yn effeithio ar eu lles a'u hadferiad.

Gwyddom fod cau cartrefi gofal yn Rhondda Cynon Taf wedi bod yn effeithio ar ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Gydag un cartref wedi cau yn ddiweddar ac un arall allai fod mewn perygl o gau, ni chafodd unrhyw un ei ryddhau i leoliad gofal yno tra bod yr ymgynghoriad ynghylch cau yn mynd rhagddo.

Rydym wedi clywed bod pecynnau gofal cartref fel arfer yn canolbwyntio'n bennaf ar ofal personol, ac yn aml mae'n ymddangos eu bod yn anwybyddu'r pethau eraill y mae pobl eu heisiau a'u hangen, er enghraifft, yn aml nid oes unrhyw help gyda glanhau, tacluso, neu siopa.

Mae pobl hefyd yn rhannu pryderon bod gwasanaethau'n rhedeg ar amserlen y darparwr yn hytrach nag amserlen sy'n gweithio iddyn nhw, e.e. rhoi pobl i'r gwely'n rhy gynnar, eu codi'n rhy hwyr. Mae rhai pobl wedi rhannu eu pryderon y gall elw deimlo'n bwysicach i rai darparwyr gwasanaethau na darparu gofal priodol. Nid yw bob amser yn teimlo bod gan staff ddigon o amser i roi'r help sydd ei angen arnynt i aros yn iach gartref.

Anghytundebau neu rwystrau deddfwriaethol sy'n effeithio ar benderfyniadau rhyddhau

Rydym yn ymwybodol bod dryswch yn aml ynghylch a ddylai byrddau iechyd neu awdurdodau lleol ariannu gofal parhaus i gleifion sy'n barod i adael yr ysbyty.

Gall hyn fod yn arbennig o drafferthus ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr lle nad yw'n glir pa dimau oedd yn gyfrifol am ofal y claf.

Gall yr anghytundebau hyn arwain at gleifion yn aros yn yr ysbyty yn hirach nag sydd raid.

Ym mis Ionawr 2025, roedd 127 o bobl yng Nghymru yn barod i fynd adref, neu symud i'w cam nesaf o ofal, ond cawsant eu gohirio oherwydd anghytundebau neu ddeddfwriaeth.

Amrywiadau mewn arferion rhyddhau o ysbytai ledled Cymru a'r effaith ar ddarpariaeth awdurdodau lleol

Lle mae pobl yn derbyn eu gofal y tu allan i'w sir enedigol neu ar draws ffiniau yn Lloegr, mae heriau ychwanegol o ran cyfathrebu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Gweithio mewn partneriaeth rhwng y GIG ac awdurdodau lleol

Mae pryderon wedi eu codi gyda ni ledled Cymru am gyfathrebu gwael rhwng ysbytai, cleifion, teuluoedd, a thimau gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys dryswch ynghylch cynlluniau rhyddhau, diffyg gwybodaeth am ofal dilynol, neu negeseuon anghyson am driniaethau neu gynlluniau gofal.

Mae llawer yn cael trafferth dod o hyd i'w ffordd drwy'r broses. Am y rheswm hwn, cynhyrchwyd sawl adnodd yng Nghymru i helpu pobl i ddeall eu hawliau a'r cymorth sydd ar gael yn ystod y broses o ryddhau cleifion i'r ysbyty gan Lywodraeth Cymru⁶, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru⁷ ac Age Cymru⁸.

Lle mae gweithwyr cymdeithasol wedi'u lleoli gyda staff ysbyty, mae'n ymddangos bod hyn yn cefnogi gwell cydlynu a chyflymu pethau i gael pobl adref

Mae gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl werthfawr i'w chwarae wrth helpu i yrru'r ddarpariaeth ranbarthol strategol o wasanaethau cymdeithasol, gan weithio'n agos gyda'r gwasanaethau iechyd.

⁶ [Canllawiau Rhyddhau o Ysbytai, GIG Cymru, Rhagfyr 2023](#)

⁷ <https://olderpeople.wales/resource/a-guide-to-hospital-discharge/>

⁸ [Gadael Ysbyty!](#) Age Cymru

Rydym wedi gweld awydd gwirioneddol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithio gyda'i gilydd. Enghraifft dda o hyn yw'r cynlluniau peilot gofal integredig mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac awdurdodau lleol yn eu treialu.

Maen nhw'n defnyddio model 'ysbyty gartref'; gofal yn y cartref er mwyn atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty pan nad oes angen, ac i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal wrth adael yr ysbyty.

Mae'r bwrdd iechyd yn partneru gyda chymdeithasau tai lleol i gynnig archwiliadau iechyd ar garreg y drws drwy dimau tai a chysylltwyr cymunedol. Mae hyn yn helpu cymunedau i ddeall sut i gael mynediad at wasanaethau iechyd ac yn galluogi'r bwrdd iechyd i brofi strategaethau atal.

I grynhoi, mae prinder staff, oedi gydag asesiadau gofaldi, a chapasiti gofal cymdeithasol cyfyngedig yn gadael pobl mewn ysbytai yn hirach na'r angen, gan roi straen ar deuluoedd a'r GIG. Mae llawer o gleifion yn aros misoedd am becynnau gofal, gydag asesiadau'n aml yn anwybyddu eu hanghenion llawn.

Mae diffyg lleoliadau cartrefi gofal sydd ar gael, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ynysu pobl ac yn arafu adferiad. Mae cyfathrebu gwael rhwng ysbytai, timau gofal cymdeithasol, a theuluoedd yn ychwanegu straen pellach. Yn y cyfamser, mae prinder gwelyau yn creu oedi canlyniadol ar draws y system gofal iechyd, o orlenwi gan yr Adran Achosion Brys i driniaethau gohiriedig.

Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae angen iddynt weithio'n agos gyda byrddau iechyd i gyflymu asesiadau gofal, ehangu cefnogaeth yn y cartref, a gwella cyfathrebu â theuluoedd.

Nawr yw'r amser i weithredu i atal straen pellach ar wasanaethau a chymunedau.

Mae cryfhau gallu gofal cymdeithasol yn hanfodol i leddfu oedi rhyddhau cleifion a phwysau ehangach.

Dylai modelau llwyddiannus, fel treialon gofal integredig a chynlluniau 'ysbyty gartref', gael eu huwchraddio a'u mabwysiadu'n ehangach. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl hanfodol hefyd wrth ysgogi cydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau cefnogaeth amserol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Chwefror 2025